# Adroddiad ar

# Goleg Sir Benfro
# Pont Myrddin
# Hwlffordd
# Sir Benfro
# SA61 1SZ

## Dyddiad yr arolygiad:  Chwefror 2011

## gan

## Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol y darparwr a'i ragolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag adran 77 Deddf Dysgu a Sgiliau 2000.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:
Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW

neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg)**

**Ⓗ Hawlfraint y Goron 2011: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

## Cyd-destun

Coleg addysg bellach cyffredinol yw Coleg Sir Benfro ac mae'n cynnig ystod o raglenni addysg bellach, addysg uwch, dysgu oedolion yn y gymuned a dysgu yn y gwaith. Mae gan y coleg tua 2,000 o ddysgwyr amser llawn a thua 6,500 o ddysgwyr rhan-amser o ardal ddaearyddol eang sy'n cynnwys Sir Gaerfyrddin a Cheredigion. Mae pum deg dau y cant o ddysgwyr amser llawn yn wrywod a 48% yn fenywod. Mae tri deg saith y cant o'r dysgwyr rhan-amser yn wrywod a 63% yn fenywod. Caiff tua 100 o ddysgwyr eu recriwtio o dramor bob blwyddyn. Mae tua 85% o'r dysgwyr ar raglenni amser llawn yn 16-19 oed. Mae mwyafrif y dysgwyr yn astudio rhaglenni ar lefelau 2 neu 3.

Mae'r coleg yn cyflwyno rhaglenni yn y prif gampws yn Hwlffordd, yn y Ganolfan Technoleg Forwrol a Thechnoleg Gwybodaeth (MITEC) yn Aberdaugleddau ac mewn tua 50 o ganolfannau allanol. Y Gymraeg yw mamiaith tua 7.5% o ddysgwyr amser llawn a 5.1% o ddysgwyr rhan-amser yn y coleg.

Mae poblogaeth Sir Benfro yn cynyddu yn gyffredinol, ond yn gostwng ar gyfer y rhai dan 16 oed. Mae'r cyfraddau diweithdra, sef tua 6%, yn is na gweddill Cymru. Mae'r cyfraddau gweithgarwch economaidd yn debyg i weddill Cymru, sef tua 23%. Mae canran poblogaeth yr ardal sy'n byw mewn ardaloedd a ddosbarthwyd yn y 10% o'r rhannau mwyaf difreintiedig yng Nghymru yn isel, sef 2%. Y canran ar gyfer Cymru yw tua 9.7%.

## Crynodeb

| Perfformiad presennol y darparwr | Da |
|---|---|
| Rhagolygon gwella'r darparwr | Da |

**Perfformiad presennol**

Mae perfformiad presennol y coleg yn dda oherwydd:

- bod safonau yn y prif gymwysterau wedi gwella'n gyson dros y tair blynedd diwethaf a bod data nas gwiriwyd y coleg ar gyfer 2009-2010 yn dangos cyfraddau cwblhau llwyddiannus uchel;
- bod y safonau a gyflawnir gan ddysgwyr ar raglenni dysgu oedolion yn y gymuned yn rhagorol;
- bod cyfran y dysgwyr sy'n cyflawni graddau uwch ar raglenni galwedigaethol ac academaidd yn dda ac yn gwella;
- bod medrau llafar, ysgrifenedig ac ymarferol dysgwyr a arsylwyd mewn ystafelloedd dosbarth a gweithdai yn dda;
- bod dysgwyr yn mynychu'r coleg yn rheolaidd, yn teimlo'n ddiogel ac yn iach yn y coleg ac yn mwynhau eu dysgu;
- bod rheolwyr ar bob lefel yn darparu arweinyddiaeth dda; a
- bod gan y coleg drefniadau da ar gyfer arfarnu a gwella ansawdd ei ddarpariaeth.

**Rhagolygon gwella**

Mae rhagolygon gwella'r coleg yn dda oherwydd:

- bod cyfraddau llwyddo dysgwyr wedi gwella'n gyson dros y tair blynedd diwethaf;
- bod gan arweinwyr a rheolwyr hanes llwyddiannus mewn nodi meysydd i'w gwella a rheoli newid;
- bod gan y coleg flaenoriaethau clir a thargedau ar gyfer gwella yn ei gynlluniau strategol a gweithredol; a
- bod gan y coleg adnoddau rhagorol i gyflawni'r gwelliannau y maent wedi'u nodi.

## Argymhellion

Mae angen i’r coleg:

A1 Wella cyfraddau cwblhau a chyrhaeddiad ar draws pob rhaglen i gyflawni’r nodau a nodir yng nghynlluniau strategol y coleg.

A2 Gwella cyflwyno a chyrhaeddiad o ran medrau allweddol, yn enwedig cwblhau ac achredu medrau cyfathrebu.

A3 Gwneud yn siŵr bod pob un o’r dysgwyr yn cael addysgu o’r ansawdd gorau ar draws pob rhaglen.

A4 Cynyddu nifer y dysgwyr sy’n cwblhau rhan neu’r cyfan o’u hasesiadau trwy gyfrwng y Gymraeg.

**Beth sy’n digwydd nesaf?**

Bydd y coleg yn cynnwys yr argymhellion o’r arolygiad yn eu cynlluniau datblygu ansawdd. Bydd arolygydd cyswllt y coleg yn monitro cynnydd y coleg o ran rhoi’r argymhellion hyn ar waith, ac yn benodol, y cyfraddau cwblhau a chyrhaeddiad ar draws pob rhaglen.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Da |
|---|---|

**Safonau: Da**

At ei gilydd, mae'r cyfraddau y mae dysgwyr ar raglenni addysg bellach yn cwblhau ac yn ennill eu cymwysterau arnynt yn debyg i, neu'n agos at gyfraddau colegau eraill yng Nghymru. Mae cyfraddau cwblhau a chyrhaeddiad ar draws y coleg wedi gwella'n gyson dros y tair blynedd diwethaf yn unol â cholegau eraill yng Nghymru. Mae'r cyfraddau y mae dysgwyr ar raglenni dysgu oedolion yn y gymuned (DOG) yn cwblhau ac yn ennill eu cymwysterau arnynt yn rhagorol ac wedi bod felly am y tair blynedd diwethaf.

Mae cyrhaeddiad dysgwyr ar gyrsiau galwedigaethol wedi gwella'n sylweddol eleni ac mae cystal â, neu'n agos at gyrhaeddiad dysgwyr mewn colegau eraill yng Nghymru. Mae cyfran y dysgwyr sy'n cael graddau Anrhydedd a Theilyngdod mewn cyrsiau Diploma Cenedlaethol yn dda ac yn gwella. Mae cyrhaeddiad dysgwyr ar gyrsiau UG ac A2 yn cymharu'n dda â darparwyr eraill, ac mae perfformiad dysgwyr yn y rhan fwyaf o bynciau yn cyfateb i'r rhagfynegiadau yn seiliedig ar eu cyrhaeddiad TGAU blaenorol. Mae data nas gwiriwyd y coleg ar gyfer 2009-2010 yn dangos bod cyfraddau cwblhau llwyddiannus wedi gwella'n sylweddol i 85% ar gyfer pob un o'r cyrsiau ac i 91% ar gyfer cyrsiau byr. Mae hyn yn dangos gwelliant o ddeg pwynt canran o 2007-2008. Yn yr un modd, mae data nas gwiriwyd y coleg yn dangos gwelliant sylweddol o ran cwblhau dyfarniadau medrau allweddol yn llwyddiannus i tua 70%, sef gwelliant o fwy nag un deg saith pwynt canran o 2007-2008.

Roedd cyfradd cwblhau dyfarniadau medrau allweddol yn llwyddiannus gan ddysgwyr yn ddigonol yn 2008-2009 a bu ychydig o welliant yn y gyfradd yn y flwyddyn ddilynol. Roedd cyflawniad dysgwyr o ran dyfarniadau mewn Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh) a Chymhwyso Rhif (CRh) yn foddhaol yn 2008-2009, ond yn anfoddhaol mewn cyfathrebu. Fodd bynnag, mae mwyafrif y dysgwyr yn cwblhau eu cymwysterau medrau allweddol yn llwyddiannus yn sgil eu cyfranogiad yng Nghymhwyster Bagloriaeth Cymru. Mae mwyafrif y dysgwyr yn datblygu eu medrau allweddol ar lefel sy'n briodol i'w hanghenion. Mae'r cyfraddau y mae dysgwyr yn cwblhau ac yn ennill Cymhwyster Bagloriaeth Cymru arnynt yn dda ac yn debyg i golegau eraill yng Nghymru.

Mae cyfraddau llwyddo ar gyfer dysgwyr o ardaloedd difreintiedig yn cymharu'n dda â holl ddysgwyr y coleg. Yn yr un modd, mae dysgwyr o grwpiau anabledd yn perfformio'n dda iawn, gyda chyfraddau llwyddo o 86% ac 88% ar gyfer dysgwyr ag anawsterau dysgu cymedrol a phenodol yn y drefn honno. Fe wnaeth dysgwyr sy'n derbyn Lwfans Cynhaliaeth Addysgol (EMA) berfformio'n well na dysgwyr eraill yn 2008-2009, ond roedd cyfraddau llwyddo ar gyfer y ddau grŵp yn debyg yn y flwyddyn ganlynol.

Mae'r rhan fwyaf o'r dysgwyr yn gwneud cynnydd da o ran datblygu eu medrau a'u gwybodaeth ar raglenni galwedigaethol ac academaidd. Yn gyffredinol, mae medrau

llafar, ysgrifenedig ac ymarferol dysgwyr yn dda ac maent yn eu datblygu'n dda mewn sesiynau dosbarth cyfan a sesiynau grŵp. Maent yn cymhwyso eu gwybodaeth a'u medrau yn dda mewn ystafelloedd dosbarth a gweithdai i ddatrys problemau ac ymchwilio i destunau a thasgau newydd. Mae'r cyfraddau dilyniant o lefel 1 i lefel 2 ac o lefel 2 i lefel 3 yn dda ac mae llawer o ddysgwyr yn gwneud cynnydd o gyrsiau lefel 3 i gyflogaeth neu addysg uwch. Mae dysgwyr yn datblygu medrau TGCh da ac yn eu defnyddio'n dda i ymchwilio a chyflwyno eu gwaith. Mae llawer o ddysgwyr yn datblygu medrau galwedigaethol da ac maent yn eu defnyddio'n effeithiol i gystadlu ac ennill dyfarniadau mewn digwyddiadau Sgiliau Byd.

Mae rhai siaradwr Cymraeg mamiaith yn y coleg. Mae dysgwyr yn datblygu eu medrau dwyieithog yn dda ar raglenni lle mae eu hangen ar gyfer eu hyfforddiant a'u lleoliadau gwaith. Fodd bynnag, nid oes digon o ddysgwyr yn cwblhau eu gwaith cwrs neu'u haseiniadau yn Gymraeg.

**Lles: Rhagorol**

Mae gan y coleg strategaeth gynhwysfawr ar iechyd a lles. Mae gan y coleg ystod eang o wasanaethau cymorth a phartneriaethau amlasiantaethol i gefnogi'r strategaeth. Mae dysgwyr yn teimlo'n ddiogel yn y coleg ac yn eu gweithleoedd. Maent yn glir ynglŷn â ble gallant ofyn am gymorth a gyda phwy i gysylltu os bydd angen cymorth arnynt neu os oes ganddynt broblemau ynghylch iechyd a diogelwch.

Mae staff y coleg yn rhoi sylw da i les emosiynol a chorfforol dysgwyr. Mae'r coleg yn cynnig gwasanaeth cwnsela amser llawn i ddysgwyr. Mae nyrs amser llawn sy'n gweithio ar y campws yn cynnal canolfan "galw i mewn" i ddysgwyr ymweld os ydynt yn pryderu am eu hiechyd neu'u lles. Mae Academïau Chwaraeon y coleg yn cynnig cyngor da ar faeth a ffitrwydd.

Mae bron pob un o'r dysgwyr yn mwynhau eu dysgu, yn enwedig mewn sesiynau ymarferol. Mae dysgwyr yn ymddwyn yn dda yn y dosbarth ac yn siarad gyda brwdfrydedd am eu profiadau dysgu. Mae gan y rhan fwyaf o ddysgwyr agwedd gadarnhaol a phroffesiynol at gwblhau eu tasgau. Mae dysgwyr yn gweithio gyda'i gilydd yn dda mewn gweithgareddau timau bach, parau neu ddosbarth cyfan. Maent yn trin ei gilydd â pharch ac maent yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau, yn enwedig wrth fentora dysgwyr iau.

Mae'r rhan fwyaf o'r dysgwyr yn brydlon ac yn mynychu'r coleg yn rheolaidd. Mae staff y coleg yn monitro presenoldeb yn dda. Mae Gwasanaethau Cymorth Myfyrwyr, neu nyrs y coleg, yn mynd i'r afael yn effeithiol â phresenoldeb gwael, parhaus neu ddiffyg presenoldeb na roddwyd gwybod amdano. Mae'r gyfradd bresennol o ran presenoldeb cyffredinol yn dda, sef tua 86%.

Mae llawer o ddysgwyr yn cyfrannu at ystod eang o weithgareddau cymunedol sy'n cael eu trefnu gan y coleg, gan gynnwys codi arian ar gyfer elusennau, gweithio gyda swyddogion Parciau Cenedlaethol a chyfrannu at wyliau bwyd lleol. Mae llawer o ddysgwyr yn datblygu eu medrau cymunedol yn dda iawn trwy eu gwaith gyda dysgwyr iau a'u hyfforddi mewn ystod o weithgareddau chwaraeon mewn ysgolion

cynradd ac ysgolion arbennig.  Mae dysgwyr yn mwynhau'r gweithgareddau hyn ac yn ymgysylltu'n dda â'u cymuned leol.

Mae gweithgareddau Pwyllgor Llais Dysgwyr y coleg yn rhagorol.  Mae'r pwyllgor yn cyfarfod yn rheolaidd ac yn gwneud cyfraniad cadarnhaol at fywyd y coleg.  Mae aelodau'r pwyllgor yn nodi ac yn gweithredu yn sgil nifer o faterion academaidd a chymdeithasol a godir gan ddysgwyr.  Mae gan ddysgwyr synnwyr cryf o gymryd rhan yn y broses gwneud penderfyniadau yn y coleg ac maent yn hyderus bod yr uwch reolwyr yn cymryd eu barn o ddifrif.  Mae aelodau o'r uwch dîm rheoli (UDRh) yn mynychu'r cyfarfodydd i roi adborth ar gynnydd tuag at y materion a godwyd a'r camau y maent wedi'u cymryd.  Roedd y pwyllgor yn awyddus i gydnabod cefnogaeth uwch reolwyr, yn arbennig pan fu'n anodd mynd i'r afael â materion a'r ffordd y maent yn gweithio gyda dysgwyr i ddod o hyd i atebion creadigol.

Mae dysgwyr yn ymgysylltu ac yn rhyngweithio'n dda â'u cyfoedion, eu tiwtoriaid a'u cwsmeriaid.  Mae dysgwyr sy'n gweithio mewn amgylcheddau gweithio realistig (AGR), fel Lletygarwch ac Arlwyo a Thrin Gwallt a Therapi Harddwch, yn dangos medrau proffesiynol priodol sy'n eu helpu i wella eu cyfathrebu, eu hyder a'u hunan-barch.

| Cwestiwn Allweddol 2:  Pa mor dda yw'r ddarpariaeth? | Da |
|---|---|

**Profiadau dysgu:  Da**

At ei gilydd, mae'r cwricwlwm yn bodloni anghenion dysgwyr, cyflogwyr a'r gymuned yn dda iawn.  Mae'r coleg yn cynnig ystod eang o gyrsiau addysg bellach o lefel mynediad i lefel pedwar ar draws nifer o feysydd dysgu.  Mae'n cynnig rhaglenni dysgu yn y gwaith a rhaglen gynhwysfawr ar gyfer dysgu oedolion yn y gymuned.  Mae tua 20% o ddysgwyr amser llawn ar draws ystod o gyrsiau yn astudio Cymhwyster Bagloriaeth Cymru (CBC) ar lefelau sylfaen, canolraddol neu uwch.

Caiff pob dysgwr gyfleoedd da i fynd ymlaen i'r lefel astudio nesaf, i addysg uwch, hyfforddiant neu gyflogaeth.

Mae'r coleg yn cydweithio'n dda â nifer fawr o bartneriaid a sefydliadau i ymestyn y cyfleoedd dysgu ar gyfer dysgwyr rhwng 14 ac 19 oed.  Mae'r coleg yn llwyddiannus o ran sicrhau cyllid ychwanegol i gefnogi ystod eang o fentrau'r cwricwlwm.  Mae'r cyllid hwn yn galluogi iddo reoli a chyflwyno ystod o raglenni ar gyfer anghenion addysg, hyfforddiant a chymdeithasol pobl ifanc nad ydynt wedi cyflawni yn flaenorol, pobl ifanc dan anfantais a dysgwyr ag anableddau.  Mae prosiect Rising Tide yng nghanolfan MITEC yn defnyddio cyllid Interreg yn dda iawn i ddarparu hyfforddiant 10 wythnos dwys ar gyfer dysgwyr sydd wedi ymddieithrio o addysg neu hyfforddiant ffurfiol.

Caiff pob dysgwr asesiad cychwynnol pan fyddant yn dod i'r coleg i nodi eu lefelau llythrennedd a rhifedd.  Mae'r coleg yn defnyddio canlyniadau'r asesiad cychwynnol yn dda i gynllunio datblygiad medrau hanfodol dysgwyr a nodi anghenion cymorth unigol.

Mae'r coleg yn rhoi cyfleoedd da i ddysgwyr ddatblygu a gwella eu medrau hanfodol. Mae pob dysgwr amser llawn yn ymgymryd ag ystod o gymwysterau medrau hanfodol. Lle bo'n briodol, mae dysgwyr yn astudio medrau hanfodol ar lefel uwch na'u prif gwrs. Mae'r coleg yn cynorthwyo dysgwyr yn dda i ddatblygu medrau ehangach sy'n gwella eu hunanhyder a'u cyflogadwyedd, er enghraifft.

Mae'r coleg yn hyrwyddo addysg ar gyfer datblygiad cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang yn dda. Caiff pob dysgwr amser llawn gyfleoedd da i ddatblygu eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o destunau cysylltiedig yn ystod eu rhaglenni ymsefydlu a'u gwersi. Maent yn cwblhau amrywiaeth o brosiectau a gweithgareddau i gynyddu eu hymwybyddiaeth am faterion amgylcheddol a chymdeithasol. Mae dysgwyr yn ymgymryd â gwaith mewn gwledydd eraill i gynorthwyo cymunedau, yn cymryd rhan mewn digwyddiadau codi arian ar gyfer elusennau ac yn gweithio gyda grwpiau cymunedol.

Mae'r coleg yn gweithio i ddatblygu ei ddarpariaeth Gymraeg ac i helpu dysgwyr i gynnal a gwella eu medrau Cymraeg. Gall dysgwyr gael eu hasesiad cychwynnol a'u cymorth dysgu yn Gymraeg, ac fe gânt gyfleoedd i gymryd rhan mewn sesiynau tiwtorial dwyieithog. Mae deunyddiau dysgu dwyieithog da ar gael iddynt. Gall dysgwyr ar CBC astudio ar gyfer cymwysterau yn Gymraeg. Ar gyrsiau gofal plant, mae mentor dwyieithog yn cynorthwyo tiwtoriaid galwedigaethol yn yr ystafell ddosbarth i gefnogi dysgwyr Cymraeg. Fodd bynnag, mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu'r iaith Gymraeg a hyrwyddo'r dimensiwn Cymreig yn amrywio gormod ar draws cyrsiau a meysydd dysgu.

Mae pob dysgwr amser llawn yn dilyn rhaglen o weithgareddau yn gysylltiedig â gwaith. Mae dysgwyr yn cwblhau profiad gwaith priodol lle mae'n elfen orfodol o'u rhaglenni. Mae athrawon yn trefnu profiadau gwaith realistig ar gyfer dysgwyr ar gyrsiau galwedigaethol. Er enghraifft, mae dysgwyr ar gwrs gweinyddu busnes yn ymgymryd â dyletswyddau gweinyddol arferol ar gyfer athrawon. Mae'r coleg yn trefnu lleoliadau a phrofiadau cysgodi ar gyfer dysgwyr os oes ganddynt ddiddordeb mewn dilyn gyrfa benodol, fel meddygaeth neu'r gyfraith, ac mae'n defnyddio profiadau gwaith rhan-amser dysgwyr yn dda i gefnogi eu gwaith coleg. Mae'r coleg yn annog ac yn cefnogi dysgwyr yn dda os ydynt am ddod o hyd i'w lleoliad eu hunain neu leoliad gwaith gwirfoddol.

**Addysgu: Da**

At ei gilydd, mae ansawdd yr addysgu yn dda ac mae'r addysgu mewn rhai gwersi yn rhagorol. Mae gan bob un o'r athrawon wybodaeth dda am y pynciau y maent yn eu haddysgu. Maent yn paratoi eu gwersi'n dda ac mae ganddynt gynlluniau gwersi a chynlluniau gwaith manwl sy'n nodi cyfleoedd i ddysgwyr ddatblygu eu medrau hanfodol, a'u dealltwriaeth o faterion cynaliadwyedd. Mae'r gwersi wedi'u strwythuro'n dda ac mae athrawon yn gosod nodau ac amcanion clir y maent yn eu rhannu gyda dysgwyr ar ddechrau eu gwersi.

Mae'r rhan fwyaf o athrawon yn ennyn ac yn cynnal diddordeb dysgwyr yn dda yn eu gwersi. Maent yn defnyddio ystod dda o strategaethau addysgu a dysgu priodol yn eu gwersi, gan gynnwys gweithgareddau dosbarth cyfan, gwaith unigol a gwaith grŵp. Mae athrawon yn cefnogi eu dysgwyr yn dda i ddatblygu eu medrau

cyfathrebu llafar a'u medrau dysgu annibynnol.  Mae athrawon yn rhoi ystyriaeth dda i wahanol alluoedd y dysgwyr.  Fodd bynnag, mewn nifer fach o ddosbarthiadau, nid yw athrawon yn gwahaniaethu'r gwaith yn ddigon da i ddarparu ar gyfer amrediad eang galluoedd y dysgwyr, neu i ennyn diddordeb y dysgwyr mwyaf abl a dawnus yn llawn.

Mae'r rhan fwyaf o athrawon yn cysylltu datblygiad medrau hanfodol yn dda â phrif gymwysterau'r dysgwyr.  Fodd bynnag, mewn rhai achosion, nid yw athrawon yn mynd ati'n ddigon da i integreiddio a rhoi medrau hanfodol mewn cyd-destun galwedigaethol.

Mae cynorthwywyr cymorth dysgu yn gweithio'n dda gyda dysgwyr ac athrawon i helpu dysgwyr i wneud cynnydd yn eu hastudiaethau.  Mae athrawon yn defnyddio adnoddau yn dda i gefnogi dysgu.

Mae bron pob un o'r athrawon yn defnyddio technegau holi yn dda yn eu dosbarthiadau i brofi cynnydd a dealltwriaeth dysgwyr.

Mae pob un o'r athrawon yn asesu gwaith dysgwyr yn rheolaidd ac yn rhoi adborth llafar da i ddysgwyr.  Yn gyffredinol, mae adborth ysgrifenedig athrawon yn ddefnyddiol ac adeiladol.  Fodd bynnag, mewn rhai achosion, nid yw adborth yr athrawon yn ddigon manwl, ac nid yw dysgwyr yn cael gwybod beth mae angen iddynt ei wneud i wella eu gwaith ysgrifenedig.  Mae'r rhan fwyaf o'r athrawon yn cadw cofnodion cynhwysfawr o gyflawniadau dysgwyr.

**Gofal, cymorth ac arweiniad:  Da**

At ei gilydd, mae gan y coleg drefniadau da ar gyfer gofal, cymorth ac arweiniad.

Caiff dysgwyr gyngor teg, clir a diduedd gan ymgynghorwyr annibynnol medrus pan fyddant yn gwneud cais i astudio yn y coleg.  Mae'r coleg yn darparu cymorth da ar gyfer dysgwyr pan fyddant yn gwneud ceisiadau i addysg uwch.  Mae rhaglen ymsefydlu strwythuredig yn helpu dysgwyr i ddysgu am y coleg a'r holl wasanaethau sydd ar gael iddynt.  Mae gan y coleg ystod dda iawn o wasanaethau cyffredinol ac arbenigol ar gyfer cefnogi dysgwyr ac maent yn gweithio gyda'i gilydd yn dda i gefnogi dysgwyr sy'n wynebu rhwystrau rhag dysgu.  Mae pob un o'r dysgwyr yn gwybod gyda phwy i gysylltu i ofyn am gyngor ac maent yn gwerthfawrogi'r cymorth a gânt.

Mae'r coleg yn hyrwyddo bwyta'n iach a manteision ymarfer corff yn dda trwy ymgyrchoedd hyrwyddo yn ogystal â sicrhau bod dysgwyr yn cael dewis da o opsiynau bwyta'n iach.  Mae dysgwyr ar CBC yn dilyn rhaglen strwythuredig ar addysg iechyd.  Caiff dysgwyr eraill gyfleoedd tebyg i ddysgu am y materion hyn ar eu rhaglenni, ond ni chânt eu cyflwyno yn yr un ffordd strwythuredig.

Mae dysgwyr yn teimlo'n ddiogel yn y coleg.  Mae gan y coleg weithdrefnau da a phriodol ar gyfer cefnogi a herio dysgwyr nad yw eu presenoldeb yn ddigon da.  Mae gweithdrefnau'r coleg ar gyfer delio ag unrhyw fwlio ac aflonyddwch yn gynhwysfawr ac effeithiol.

Mae system diwtorial y coleg yn cefnogi cynnydd dysgwyr yn effeithiol.  Caiff pob un o'r dysgwyr sesiynau tiwtorial unigol rheolaidd a sesiwn diwtorial grŵp bob wythnos. Mae'r coleg yn arbrofi â chynllun dysgu unigol ar-lein sy'n darparu cofnod manwl a chynhwysfawr o gynnydd dysgwyr ac yn cofnodi targedau cytûn.

Mae'r coleg yn cefnogi dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol yn dda iawn.  Mae staff yn nodi dysgwyr ag anghenion ychwanegol pan fyddant yn cysylltu â'r coleg am y tro cyntaf ac maent yn teilwra'r cymorth yn dda i fynd i'r afael ag anghenion unigol dysgwyr.  Mae tua thri chwarter o'r dysgwyr y nodwyd bod angen cymorth arnynt yn manteisio ar y cynnig.

Mae gan y coleg bolisi a gweithdrefnau priodol ar gyfer diogelu.

**Yr amgylchedd dysgu:  Rhagorol**

Mae'r coleg yn darparu amgylchedd cynhwysol ar gyfer pob un o'i ddysgwyr.  Mae ganddo ethos cryf a chadarnhaol a diwylliant croesawgar sy'n cefnogi cyfle cyfartal ac amrywiaeth ar draws pob maes o'i ddarpariaeth.

Mae gan staff a dysgwyr ddealltwriaeth dda o gydraddoldeb ac maent yn dangos lefel uchel o barch at ei gilydd.  Maent yn gwbl ymwybodol o bolisi cyfle cyfartal y coleg sy'n cael ei roi ar waith yn effeithiol trwy ymsefydlu gyda dygwyr a thrwy hyfforddiant effeithiol gyda staff.  Caiff dysgwyr rhyngwladol eu hintegreiddio'n dda yng nghymuned y coleg.

Mae'r coleg yn darparu amgylchedd dysgu da iawn ac adnoddau dysgu rhagorol i gefnogi addysgu a dysgu effeithiol.  Mae pob un o feysydd y coleg yn atyniadol ac yn cael eu cynnal yn dda.  Mae gan bron bob ystafell ddosbarth offer TGCh da iawn.

Mae mannau cymunedol y coleg yn atyniadol a phleserus iawn ac fe gânt eu parchu a'u defnyddio'n dda gan ddysgwyr.

Mae gan bron bob maes galwedigaethol gyfleusterau rhagorol sy'n adlewyrchu gofynion diwydiannol cyfredol.

| | |
|---|---|
| **Cwestiwn Allweddol 3:  Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?** | **Da** |

**Arweinyddiaeth:  Da**

Mae rheolwyr ac arweinwyr yn darparu arweinyddiaeth dda.  Mae'r pennaeth a'r uwch reolwyr yn dîm profiadol ac maent yn gosod cyfeiriad clir ar gyfer y coleg. Maent yn gweithio gyda'i gilydd yn dda iawn i ddarparu arweinyddiaeth glir ar gyfer pob un o'r staff eraill.  Maent yn gwybod beth yw cryfderau a gwendidau'r coleg ac maent wedi nodi strategaethau clir ar gyfer gwella.

Mae rheolwyr y coleg yn gweithio gyda'i gilydd yn effeithiol iawn i osod amcanion a thargedau clir ar gyfer gwella.  Mae gan y staff ddealltwriaeth glir o rolau a chyfrifoldebau rheoli ac mae gan y coleg ddiwylliant sy'n gynhwysol, yn agored ac yn gydweithredol.  Mae rheolwyr ac arweinwyr yn hyderus ac yn effeithiol yn eu rolau.

Mae’r cynllunio strategol a gweithredol yn dda. Mae’r cynllun strategol yn datgan yn glir y nodau ar gyfer y coleg ac ar gyfer pob cyfarwyddiaeth. Adlewyrchir hyn yn dda yn y cynllun gweithredol sy’n cael ei lunio trwy gynnwys ystod eang o staff. Mae arweinwyr ar bob lefel yn cymryd perchnogaeth o dargedau ar gyfer gwelliannau ac mae perfformiad dysgwyr wedi dangos tuedd gyson ar i fyny dros y 3 blynedd diwethaf.

Mae’r llywodraethwyr yn wybodus am eu cyfrifoldebau. Mae ganddynt gymysgedd da o fedrau ac ystod o brofiad. Maent yn derbyn gwybodaeth sy’n galluogi iddynt fonitro cynnydd yn erbyn targedau yn effeithiol. Maent yn ymwybodol o’r meysydd perfformiad hynny lle mae angen i’r coleg wella. Maent yn dangos eu bod yn deall perfformiad dysgwyr yn glir ac maent yn disgwyl i’r wybodaeth a gyflwynir iddynt gael ei chymharu â meincnodau cenedlaethol. Mae’r llywodraethwyr yn dangos dealltwriaeth gadarn o rolau uwch reolwyr a’r heriau y maent yn eu hwynebu ac maent yn ystyried eu bod yn effeithiol iawn.

Mae’r coleg wedi ymateb yn dda iawn i flaenoriaethau cenedlaethol a lleol ar gyfer trawsnewid addysg yn Sir Benfro. Mae’r coleg wedi cymryd rôl flaenllaw mewn sawl prosiect, gan gynnwys sefydlu ffederasiwn 14-19 effeithiol gyda’r awdurdod addysg lleol ac ysgolion lleol. Mae’n ffurfio perthnasoedd effeithiol gyda’r darparwr addysg uwch lleol. Mae’n arwain ar gonsortiwm dysgu yn y gwaith sy’n cynnwys coleg arall a sawl darparwr dysgu yn y gwaith annibynnol i wella cyfleoedd dysgu yn y gwaith yn y rhanbarth. Mae’r coleg wedi gweithio’n dda i hyrwyddo ystod o bartneriaethau lleol.

**Gwella ansawdd: Da**

At ei gilydd, mae gan y coleg drefniadau da i arfarnu ansawdd ei ddarpariaeth ac mae’n gwrando’n dda iawn ar farn dysgwyr a chyflogwyr. Mae pob un o’r rhaglenni yn ethol cynrychiolydd cwrs ac mae’r rhain yn elwa ar hyfforddiant gan Undeb Cenedlaethol y Myfyrwyr, Cymru. Mae hyn yn helpu iddynt gyflawni eu rolau yn effeithiol iawn.

Mae gan y coleg strategaeth effeithiol ar gyfer gwrando ar farn dysgwyr. Mae’r coleg yn ganolfan beilot flaenllaw ar gyfer Safonau Cyfranogiad Cenedlaethol Llais y Dysgwr. Mae cynrychiolwyr dysgwyr yn mynychu cyfarfodydd Pwyllgor Llais y Dysgwr a chyfarfodydd tîm y cwrs bob deufis. Maent yn cyfrannu’n dda at y rhain. Mae i bob cyfarfod agendâu priodol a phwyntiau gweithredu clir sy’n cael eu rhoi ar waith. Caiff y rhain eu harddangos ar bosteri mewn mannau cymunedol yn y coleg ac ar fewnrwyd y coleg.

Mae’r coleg yn cynnal arfarniadau dysgwyr o ddarpariaeth ar adegau allweddol ac mae’n defnyddio ‘diwrnodau siarad â myfyrwyr’ a grwpiau ffocws dysgwyr yn effeithiol. Mae aelodau o’r uwch dîm rheoli yn ymweld â dosbarthiadau yn rheolaidd i ganfod barn dysgwyr ar eu profiadau yn y coleg. Caiff deilliannau’r gweithgareddau hyn eu rhannu gyda staff ym mhob cyfarwyddiaeth a chyda’r corff llywodraethol.

Mae’r coleg yn rhoi ystyriaeth dda i farn y staff wrth asesu perfformiad a deilliannau dysgwyr trwy ymgynghori helaeth a thrwy ddefnyddio data ac arolygon staff yn effeithiol.

Mae'r coleg yn cynnal adolygiadau rheolaidd a chynhwysfawr o berfformiad ar bob un o'r cyrsiau. Mae'r rhain yn cynnwys defnyddio data yn effeithiol i ddadansoddi deilliannau yn erbyn meincnodau cenedlaethol. Caiff yr adolygiadau hyn eu defnyddio'n dda i baratoi'r adroddiad hunanasesu ar lefel cyfarwyddwr ac adroddiad hunanasesu cyffredinol y coleg. Mae'r Pwyllgor Cwricwlwm a Safonau yn cynnig her briodol ar gyfer perfformiad y coleg, yn enwedig lle mae meysydd pryder.

Mae cysylltiadau clir ac effeithiol yn bodoli rhwng cynllunio strategol, hunanasesu ac adolygiadau cwrs.

Mae gan y coleg system drylwyr ar gyfer arsylwi ystafell ddosbarth a cheir dadansoddiad manwl o addysgu a dysgu. Mae'r rhain yn nodi meysydd i'w gwella yn glir. Mae cyfran y sesiynau addysgu y barnwyd eu bod yn rhagorol gan y coleg yn awgrymu bod barnau yn yr arsylwadau hyn weithio'n rhy hael.

At ei gilydd, mae tuedd gyson ar i fyny wedi bod mewn cyfraddau llwyddo dros y 3 blynedd diwethaf. Er bod gwelliant cyson wedi bod mewn cyfraddau llwyddo ar gyrsiau hir, maent yn parhau yr un fath â meincnodau cenedlaethol. Mae data medrau allweddol yn dangos gwelliant cyson mewn cyfraddau llwyddo dros y 3 blynedd diwethaf. Fodd bynnag, maent yn parhau i fod yr un fath â'r meincnodau cenedlaethol diweddaraf, neu islaw.

Mae'r coleg wedi ymateb yn dda i'r argymhellion a wnaed yn yr adroddiad arolygu diwethaf.

Mae'r coleg yn ymgysylltu'n dda mewn ystod eang o gymunedau dysgu proffesiynol, yn rhanbarthol ac yn genedlaethol, i feincnodi eu perfformiad a rhannu arfer dda. Mae'r rhain yn cynnwys Colegau Cymru, Ffederasiwn Hyfforddiant Cenedlaethol Cymru, yr Awdurdod Addysg Lleol (AALl), ysgolion a sefydliadau addysg bellach ac addysg uwch eraill.

**Gweithio mewn partneriaeth: Rhagorol**

Mae'r coleg wedi datblygu partneriaethau effeithiol iawn a hirsefydledig gydag ystod eang o sefydliadau. Mae'n parhau i feithrin partneriaethau newydd ac effeithiol. Mae'r partneriaethau hyn yn bodoli ar lefelau strategol a gweithredol. Yn lleol, mae'r rhain yn cynnwys yr AALl, ysgolion a'r rhwydweithiau dysgu 14-19 lleol.

Mae'r coleg yn arwain yn dda ar Ffederasiwn Hwlffordd ac mae'n gweithio'n dda gyda'r AALl a'r ysgolion yng ngogledd y sir i gyflwyno ystod o ddewisiadau cwrs galwedigaethol ac academaidd.

Mae'r coleg wedi ymateb yn dda i'r heriau sy'n dod yn sgil rhanbarthu addysg uwch. Mae'n cael trafodaethau manwl gyda sefydliad addysg uwch lleol ar hyn o bryd ar ystod o brosiectau cydweithredol sy'n cynnwys dilysu darpariaeth addysg uwch y coleg.

Mae gan y coleg hanes o weithio'n agos gyda cholegau addysg bellach eraill trwy sefydliadau fel Colegau Cymru. Mae'n gweithio'n agos gyda cholegau addysg bellach yn ne orllewin Cymru a'r Partneriaethau Dysgu Rhanbarthol (PDRh) i wella

ceisiadau am gyllid y prosiect Ewropeaidd. Mae'r coleg yn gweithio'n agos iawn gydag un coleg addysg bellach arall i gyflwyno rhaglenni addysg uwch ar y cyd.

Yn ddiweddar, mae'r coleg wedi arwain consortiwm sy'n cynnwys coleg addysg bellach arall, darparwr dysgu yn y gwaith a sefydliad elusennol i dendro am gyflwyno darpariaeth dysgu yn y gwaith yn y rhanbarth.

Mae'r coleg yn gweithio'n dda gyda phartneriaid dramor ac yn cofrestru tua 100 o ddysgwyr bob blwyddyn. Mae'r coleg yn gweithio'n agos gyda diwydiant ac mae'n cyflwyno cyrsiau arbenigol ar gyfer y diwydiannau petrocemegol. Mae wedi gweithio gyda phartneriaid diwydiannol ym Mheriw ac mae'n gweithio gyda chorff dyfarnu i ddatblygu deunyddiau a chymwysterau y gellir eu marchnata yn rhyngwladol.

Mae'r coleg wedi gweithio'n dda iawn gyda phartneriaid diwydiannol a dylunwyr systemau arbenigol i ddatblygu a gosod efelychydd ystafell rheoli offer rhagorol, cyfoes ar gyfer y diwydiant petrocemegol yn Hwlffordd a chyfleusterau ffabrigo, weldio a chynnal bywyd go iawn rhagorol yn Aberdaugleddau.

Gweithiodd y coleg yn dda iawn gyda phartneriaid diwydiannol i sefydlu Grŵp Datblygu Gweithlu Ynni Sir Benfro i ymateb i Gynllun Gofodol Cymru ar gyfer Hafan Penfro gan APADGOS. Mae hyn wedi galluogi'r grŵp i gael cyllid Ewropeaidd i wella medrau'r gweithlu yn y sector lleol pwysig hwn.

Mae cynllunio strategol a gweithredol yn cynnwys gweithio'n agos â darparwyr trydydd parti bob blwyddyn. Mae hyn yn gwneud yn siŵr eu bod yn gosod targedau sy'n realistig ond yn heriol ac maent yn monitro eu cynnydd yn agos. Mae cynllunio a monitro ar y cyd yn digwydd gyda holl bartneriaid y coleg i wella a chynnal safonau. Mae hyn yn cynnwys Ffederasiwn Hwlffordd lle mae rheolwyr yn gweithio'n dda gydag ysgolion a swyddogion yr AALl i gynnal safonau uchel a gwneud yn siŵr bod y ddarpariaeth yn hyfyw yn ariannol.

**Rheoli adnoddau: Da**

Mae'r coleg yn rheoli ei adnoddau yn dda iawn. Mae'r cynllunio ariannol yn gryf ac mae rheolwyr yn defnyddio gwybodaeth feincnodi yn dda i flaenoriaethu dyrannu adnoddau yn unol â'r cynllun strategol. Caiff cyllidebau eu dirprwyo'n briodol a'u monitro'n effeithiol. Mae'r coleg yn mynd ati'n dda iawn i chwilio am ffynonellau incwm amgen, sy'n golygu ei fod yn dibynnu llai ar Gyllid gan Lywodraeth Cynulliad Cymru.

Mae gan y coleg nifer briodol o staff cymwys a phrofiadol. Mae'r coleg yn defnyddio staff yn effeithiol ac mae cysylltiadau da yn bodoli rhwng cyfarwyddiaethau'r cwricwlwm ac adnoddau dynol i sicrhau bod amser a medrau'r staff yn cael eu defnyddio yn y ffordd orau.

Mae'r rhaglen datblygu staff yn dda ac yn adlewyrchu blaenoriaethau sefydliadol a chenedlaethol yn dda. Mae gan bob un o'r staff hawl i 10 diwrnod o weithgarwch ysgolheigaidd er mwyn gwella profiad y dysgwr. Mae'r cymorth ar gyfer staff ac iechyd galwedigaethol yn dda iawn ac mae absenoliaeth y staff ymhlith yr isaf yn y sector.

At ei gilydd, mae'r adeiladau mewn mannau addysgu a mannau cymdeithasol yn dda iawn ac mae cynllun a ystyriwyd yn dda ar gyfer gwella ansawdd ystâd y coleg. Mae'r coleg yn rhoi pwyslais pwysig ar gynaliadwyedd. O ganlyniad, gwnaed arbedion sylweddol ar gostau gweithredol sydd wedi cael eu hailfuddsoddi'n dda i wella'r amgylchedd dysgu er lles y dysgwyr.

Mae'r coleg yn datblygu partneriaethau effeithiol ar gyfer gwasanaethau ar y cyd mewn tendro unigol a gwnaed gwaith da iawn mewn effeithlonrwydd ynni gan arwain at arbedion sylweddol.

Mae'r coleg yn rheoli ei gyllid yn dda iawn ac mae wedi gwneud gostyngiadau sylweddol yn ei gyllidebau gweithredol. Defnyddiwyd yr arbedion hyn yn effeithiol i ddarparu adnoddau o ansawdd uchel ac amgylchedd dysgu rhagorol. Mae wedi galluogi'r coleg i sefydlu haen o reolwyr sydd â chyfrifoldeb penodol am wella'r cwricwlwm ac ansawdd profiad y dysgwyr. Mae'r deilliannau ar gyfer dysgwyr yn dda. Er bod y deilliannau ar gyfer dysgwyr yn gwella yn unol â cholegau eraill yng Nghymru, mae'r coleg yn rheoli ei gyllid a'i adnoddau yn dda iawn ac yn cynnig gwerth rhagorol am arian.

## Atodiad 1

**Boddhad Dysgwyr**

Mae dysgwyr yn rhoi sylwadau ffafriol ar y coleg yn yr holiaduron cyn-arolygiad. Mae bron pob un o'r dysgwyr yn argymell y coleg i bobl eraill. Mae dysgwyr yn rhoi sylwadau ffafriol ar y cyngor a'r wybodaeth a gawsant gan y coleg cyn ymrestru. Maent yn canmol y cymorth a'r arweiniad a gawsant gan eu tiwtoriaid cwrs. Mae dysgwyr yn teimlo eu bod wedi cael cyfle da iawn i ddefnyddio'r adnoddau sydd eu hangen arnynt i gwblhau eu cyrsiau. Mae bron pob un o'r dysgwyr yn teimlo'n ddiogel ac yn rhydd oddi wrth aflonyddwch yn y coleg. Nododd naw deg tri y cant o'r dysgwyr a ymatebodd i'r holiadur eu bod yn mwynhau eu dysgu yn y coleg.

## Atodiad 2

# F0009017: Coleg Sir Benfro

| | 2007-08 | | | 2008-09 | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Gweithgare-ddau Dysgu a Derfynwyd | Cyfradd Lwydd-o'r Coleg | Cymharydd Cenedlae-thol | Gweithgare-ddau Dysgu a Derfynwyd | Cyfradd Lwyddo | Cymharydd Cenedlaeth-ol |
| **Cyfraddau llwyddo mewn cyrsiau hir yn ôl sector/maes pwnc** | | | | | | |
| Iechyd, Gwasanaethau Cyhoeddus a Gofal | 655 | 64% | **67%** | 685 | 64% | **76%** |
| Gwyddoniaeth a Mathemateg | 410 | 63% | **65%** | 440 | 63% | **71%** |
| Amaethyddiaeth, Garddwriaeth a Gofal | 165 | 67% | **57%** | 105 | 76% | **74%** |
| Peirianneg a Thechnolegau Gweithgynhyrchu | 565 | 63% | **67%** | 560 | 71% | **75%** |
| Adeiladu, Cynllunio a'r Amgylchedd Adeiledig | 515 | 71% | **71%** | 445 | 71% | **74%** |
| Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu | 580 | 71% | **64%** | 265 | 72% | **73%** |
| Manwerthu a Gwasanaeth Cwsmeriaid | 75 | 80% | **72%** | 60 | 92% | **74%** |
| Gwallt a Harddwch | 285 | 67% | **67%** | 255 | 63% | **75%** |
| Lletygarwch ac Arlwyo | 135 | 41% | **68%** | 265 | 36% | **72%** |
| Hamdden, Teithio a Thwristiaeth | 135 | 67% | **69%** | 360 | 74% | **78%** |
| Y Celfyddydau Perfformiadol | 70 | 57% | **73%** | 65 | 69% | **73%** |
| Celf a Dylunio | 455 | 79% | **72%** | 305 | 79% | **78%** |
| Hanes, Athroniaeth a Diwinyddiaeth | 40 | 50% | **52%** | 145 | 52% | **77%** |
| Y Gwyddorau Cymdeithasol | 30 | 83% | **74%** | 35 | 71% | **76%** |
| Cymraeg, Saesneg ac Ieithoedd Eraill | 260 | 62% | **68%** | 150 | 80% | **73%** |
| Addysg a Hyfforddiant | 100 | 65% | **65%** | 130 | 65% | **76%** |
| Medrau Byw yn Annibynnol | 55 | 64% | **55%** | 0 | . | **78%** |
| Sylfaen i Waith | 380 | 47% | **65%** | 480 | 97% | **76%** |
| Busnes, Gweinyddu a'r Gyfraith | 740 | 72% | **68%** | 615 | 80% | **71%** |
| Sector/Maes Pwnc heb ei nodi | 40 | 38% | **36%** | 20 | 50% | **70%** |
| **Pob Cwrs Hir** | 5,685 | 66% | **67%** | 5,395 | 71% | **75%** |
| **Cyfraddau llwyddo yn ôl lefel dybiannol, hyd y nod dysgu** | | | | | | |
| Lefel Mynediad (hir) | 360 | 85% | **73%** | 685 | 98% | **80%** |
| Lefel 1 (hir) | 1,195 | 73% | **69%** | 645 | 78% | **78%** |
| Lefel 2 (hir) | 1,825 | 56% | **65%** | 1,990 | 66% | **73%** |
| Lefel 3 (hir) | 2,135 | 68% | **67%** | 1,935 | 65% | **73%** |
| Lefel 4 + (hir) | 115 | 65% | **53%** | 105 | 48% | **63%** |
| Lefel ddim yn hysbys (hir) | 50 | 50% | **39%** | 40 | 63% | **69%** |
| **Pob Nod Dysgu Hir** | 5,685 | 66% | **67%** | 5,395 | 71% | **75%** |
| **Pob Nod Dysgu Byr** | 5,580 | 86% | **77%** | 4,875 | 90% | **85%** |
| **nodau e-ddysgu** | 1,160 | 70% | **46%** | 625 | 90% | **58%** |
| **Pob nod dysgu** | 12,425 | 75% | **70%** | 10,895 | 81% | **78%** |

*. dynodi nad yw'n berthnasol.*

*Ffynhonnell: Cofnod Dysgu Gydol Oes Cymru (CDGOC)*

## Atodiad 3

**Y tîm arolygu**

| | |
|---|---|
| Huw Collins AEM | Arolygydd Cofnodol |
| Una Connolly AEM | Arolygydd Tîm |
| Eleanor Davies AEM | Arolygydd Tîm |
| Sandra Barnard AEM | Arolygydd Tîm |
| Bernard Hayward AEM | Arolygydd Tîm |
| Christine Hooper AEM | Arolygydd Tîm |
| Celia Jones | Arolygydd Cymheiriaid |
| Lesley Rasmussen | Arolygydd Cymheiriaid |
| Catrin Rees | Arolygydd Cymheiriaid |
| Lawrence Wood | Arolygydd Cymheiriaid |
| Guy Lacey | Arolygydd Cymheiriaid |
| Barry Walters | Enwebai'r Darparwr |